**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 26 Medi 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P N Bentu | S Joy | L V Walton |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Emily-Jayne Davies | Swyddog Polisi Strategol |
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghoriadau |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Lee Wenham | Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Mr M Corcoran, Lab Cyd-gynhyrchu Cymru
**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner ac F D O'Brien

---

## 13 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 14 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 15 Polisi Cydgynhyrchu Cyngor Abertawe - (Gwaith ar y gweill - drafft) - Cyflwyniad

Nododd y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata fod y cyngor wedi bod yn gweithio ar ymgysylltu â Lab Cyd-gynhyrchu Cymru ers blwyddyn bron, a chyflwynodd Mr Mike Corcoran (Lab Cyd-gynhyrchu Cymru) i'r cyfarfod.

Manylodd Mr Corcoran ar y gwaith a wnaed i adeiladu cyd-gynhyrchu a’i roi ar waith o fewn y cyngor.  Cyfeiriodd at rwydwaith hyrwyddwyr cyd-gynhyrchu’r cyngor, hyfforddiant (gan gynnwys sgiliau hwyluso, pecyn cymorth i gefnogi prosiectau byw) a manylodd ar sut y mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu.

Darparodd grynodeb manwl o'r Polisi Cydgynhyrchu a oedd yn cynnwys y cefndir, diffiniad o gyd-gynhyrchu, cyd-gynhyrchu ac ymagweddau ymgysylltu eraill, lefelau o gyd-gynhyrchu, rhoi cyd-gynhyrchu ar waith, pryd i beidio â chyd-gynhyrchu, egwyddorion arwain lefel uchel i'w rhoi ar waith, rolau yn y broses a gwybodaeth ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, nododd Mr Corcoran fod gweithio gyda'r cyngor wedi bod yn broses werthfawr a’i fod wedi cynnig cyfle i archwilio cyd-gynhyrchu mewn amgylchiadau go iawn a oedd wedi darparu sawl syniad da.

Pwysleisiodd y pwysigrwydd o bob parti'n cael ei ystyried yn gyfwerth ac yn cadw at egwyddorion cyffredinol wrth fabwysiadu amrywiaeth eang o ymagweddau.

Diolchodd y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata i'r Pwyllgor am ei farn, a oedd wedi helpu i lywio'r polisi drafft.

Mynegodd ei ddiolch hefyd i Lab Cydgynhyrchu Cymru am eu cyfranogaeth a'u cymorth parhaus gyda phrosiectau cynnar.

Anogodd y Pwyllgor i ddarparu unrhyw sylwadau pellach yn uniongyrchol i swyddogion neu drwy dudalen ymgynghori'r cyngor, ac i hyrwyddo'r polisi i unrhyw grwpiau anodd eu cyrraedd o fewn eu cymunedau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Corcoran a'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata am eu hadroddiad addysgiadol.

## 16 Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn manylu ar yr wybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn paratoi ar gyfer cyfrannu at gynigion arbedion yn y dyfodol.

Manylodd ar y cyd-destun ac amlinellodd yr heriau mewn perthynas â'r ffordd yr oedd cynghorau'n dyrannu cyllid gan Lywodraeth Cymru, a'r tybiaethau/rhagolygon ar lefelau gwariant yn y dyfodol a ffrydiau incwm.  Roedd y ffrydiau incwm hyn yn amodol ar yr hinsawdd economaidd gyffredinol, ond hefyd yr amgylchedd gwleidyddol.

At hynny, nodwyd bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn cyflwyno nifer o anawsterau o ran rhagweld lefelau chwyddiant, dyfarniadau cyflog a chyllid yn y dyfodol. Gwnaed hyn yn fwy cymhleth oherwydd y gofyniad i fodloni ymrwymiadau

polisi yn ogystal â chydbwyso gofynion cyfreithiol, heb ddigon o arian craidd yn gyffredinol.

Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i'r Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 am weithredu mewn amgylchedd heriol ac awgrymodd bod yr adroddiad yn cael ei ohirio nes diwedd mis Ionawr/mis Chwefror 2024 pan fyddai ffrydiau ariannu/incwm wedi'u cadarnhau.

## 17 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024.

**Penderfynwyd:--**

1) Gohirio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig tan y cyfarfod ar 27 Chwefror, 2024.
2) Cyflwyno canlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyd-gynhyrchu i'r Pwyllgor ar 31 Hydref 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.39pm

**Cadeirydd**